PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 10 | Mawrth 9, 2023 | 50c.



## COFIO WCRÁIN YNG NGHAERFYRDDIN



Flwyddyn union ers dechrau ymosodiad mawr Rwsia ar wlad Wcráin, fe wnaeth tua 50 o bobl ymgynnull ar Sgwâr Nott, Caerfyrddin i gynnal gwylnos er mwyn meddwl am bawb sy'n dioddef oherwydd y rhyfel yno.

Cyn cynnal pum munud o dawelwch, fe wnaeth y Parchg Beti-Wyn James annerch y cynulliad. Wrth adleisio neges Cymdeithas y Cymod, dywedodd ei bod hi'n hollbwysig nad ydym yn normaleiddio'r hyn sy'n digwydd, gan gofio mai pobl a theuluoedd sy'n dioddef yn bennaf yn y rhyfel hwn, fel ym mhob rhyfel.

Mynegodd dristwch fod blwyddyn gyfan wedi mynd heibio heb unrhyw ymdrech i ddod â'r ymladd i ben trwy drafodaeth ddiplomyddol. Dyna fydd yn siŵr o ddigwydd yn y diwedd, meddai. Ond yn y cyfamser mae cannoedd o filoedd o bobl gyffredin a milwyr wedi cael eu lladd neu'u clwyfo ar y ddwy ochr. Bu'r pris economaidd i'r gymuned ryngwladol yn sylweddol iawn hefyd. Dim ond trwy gymod y daw heddwch hir dymor i'r rhan yna o Ewrop.


## Open Doors yn lansio Rhestr Wylio'r Byd am y 30fed tro

Aeth 30 mlynedd heibio ers i'r mudiad Open Doors ddechrau cyhoeddi Rhestr Wylio Fyd-eang yn cofnodi sefyllfa Cristnogion dan erledigaeth. Pan gyhoeddwyd Rhestr Wylio 2023 yr wythnos diwethaf mewn digwyddiad yn Senedd San Steffan, yr oedd un o bob saith o Gristnogion ledled y byd yn cael eu herlid oherwydd eu ffydd. Cânt eu targedu yn aml mewn ymosodiadau, fel treisio, herwgipio, a hyd yn oed eu lladd.

### Brawychus

Yn ôl yr ystadegau a lwyddodd y mudiad i'w casglu y llynedd, fe fu farw 5,621 o Gristnogion oherwydd eu ffydd. O'r 360 miliwn o Gristnogion sy'n wynebu erledigaeth yn ddyddiol, mae 312 miliwn yn byw yn y 50 gwlad sy'n ffurfio'r rhestr hon, yn ôl yr adroddiad. Gogledd Corea, Somalia ac Yemen yw'r gwledydd mwyaf peryglus i fyw ynddynt fel Cristion eleni. Afghanistan oedd ar ben y rhestr y llynedd. Ar ôl i'r Taliban gymryd yr awenau yn 2021, dienyddiwyd llawer o Gristnogion wrth i'r oruchwyliaeth newydd fynd o ddrws i ddrws er mwyn dileu Cristnogaeth. Fodd bynnag, mae Afghanistan bellach wedi disgyn i rif naw

*parhad ar dudalen 2*



# Open Doors yn lansio Rhestr Wylio'r Byd am y 30fed tro – *parhad*

ar y rhestr. Ond dywedodd Henrietta Blyth, Prif Swyddog Gweithredol Open Doors y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, yn yr adroddiad nad yw'r gostyngiad o ran safle o reidrwydd yn golygu gwelliant yn yr amodau i Gristnogion yn y wlad. 'Mae'n ymddangos mai'r rheswm am y gostyngiad hwn yw lleihad sylweddol yn y sgôr trais. Ac mae hynny naill ai oherwydd bod y Cristnogion wedi ffoi o'r wlad, neu eu bod nhw eisoes, yn drist iawn, wedi cael eu lladd, neu eu bod yn gorfod cuddio. Dim ond marwolaethau a digwyddiadau o drais rydyn ni'n gallu eu cadarnhau y byddwn ni'n eu hadrodd ... Ddylai pobl ddim cael eu twyllo i feddwl bod pethau wedi gwella i'n brodyr a'n chwiorydd yn Afghanistan. Yn bendant, dydyn nhw ddim.' Mae'r adroddiad hefyd yn rhybuddio am don o drais crefyddol yn Affrica is-Sahara sy'n ansefydlogi'r rhanbarth, gyda miloedd o Gristnogion yn cael eu targedu gan grwpiau Islamaidd. Mae grwpiau fel Boko Haram yn anafu, treisio a herwgipio credinwyr er mwyn dileu presenoldeb Cristnogaeth. 'Pe bai trais yn unig faen prawf ar gyfer y rhestr, Nigeria fyddai'r uchaf ar y rhestr,' ychwanegodd Blyth. 'Mae mwy o Gristnogion yn marw yn Nigeria nag mewn unrhyw wlad arall. Mewn gwirionedd, mae 90 y cant o'r marwolaethau a gofnodir gennym ymysg ein brodyr a'n chwiorydd Cristnogol yn digwydd yn Nigeria. Y llynedd, lladdwyd dros bum mil o bobl yno. Ac mae'n ymddangos bod hyn bellach mewn perygl o ansefydlogi'r rhanbarth cyfan, sy'n achos pryder mawr.'

### Tsieina a Gogledd Corea

Rhybuddiodd yr elusen hefyd am sefyllfa Cristnogion yn Tsieina, gyda'r llywodraeth gomiwnyddol yn gweithredu rheolau newydd ar ddefnyddio'r rhyngrwyd i wasgu mwy ar eglwysi tanddaearol a chyfyngu ar ddeunydd crefyddol. Gan gyrraedd y sgôr uchaf erioed yn hanes y rhestr, mae Gogledd Corea wedi dychwelyd i rif un ar y rhestr eleni. Yn ôl y mudiad Open Doors, mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y Cristnogion sydd wedi cael eu harestio yno, â mwy o eglwysi tanddaearol yn cael eu darganfod a'u cau.

Rheswm arall pam y mae Gogledd Corea yn ôl ar frig y rhestr yw'r ddeddf newydd sy'n cael ei gorfodi ar y rhai sy'n meddwl mewn ffordd sy'n groes i ddymuniadau'r llywodraeth ('anti-reactionary thought law'). Yn ôl y ddeddf hon, mae'n drosedd bod ag unrhyw ddeunydd cyhoeddedig o darddiad tramor, gan gynnwys y Beibl, yn eich meddiant. Caiff y ddeddf hon hefyd ei defnyddio i chwilio am eglwysi a chredinwyr tanddaearol. 'Mae Gogledd Corea wedi targedu Cristnogion a Christnogaeth erioed. Dyma'r grŵp cyntaf i gael ei ddileu neu ei dargedu neu ei ddinistrio. Mae hyn wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd lawer, ers 1948 gyda sefydlu'r unbennaeth gomiwnyddol,' meddai Timothy Cho, ffoadur o Ogledd Corea sydd bellach yn gweithio i Open Doors fel llefarydd y rhanbarth. 'Mae'r gyfraith newydd hon yn dod â thon newydd o erledigaeth yn ei sgil. Maen nhw'n ceisio dod o hyd i unrhyw un sydd wedi dod dan ddylanwad deunyddiau crefyddol.' Wrth i Cho gyflwyno'i dystiolaeth a'i hanes yn y carchar i fudiad newyddion Cristnogol Premier, dywedodd: 'Dim ond un person wedi cael cyfarfyddiad â Duw sydd ei angen er mwyn lledaenu'r Efengyl. Dychmygwch wlad heb ffonau symudol na rhyngrwyd, ond lle mae gennych chi gymuned ddynol. Dyna sut y gall y stori gael ei throsglwyddo o'r naill i'r llall ... Maen nhw'n gwybod y gallan nhw gael eu lladd, ond maen nhw'n gwybod hefyd na fydd eu ffydd yn cael ei dinistrio.' Er ei bod yn anodd gwybod faint o Gristnogion sydd yng Ngogledd Corea, mae Open Doors yn amcangyfrif bod yna 400,000 yno, a bod rhwng 50,000 a 70,000 ohonynt mewn gwersylloedd llafur. Er mwyn cael golwg ar y deunyddiau i'w lawrlwytho neu eu harchebu, gellir mynd at wefan y mudiad: www.opendoorsuk.org/persecution/world-watch-list/

### Adnoddau Cymraeg

Cafwyd addewid y bydd y mudiad yn paratoi llyfryn y Rhestr Wylio Fyd-eang eto eleni yn Gymraeg ac y bydd ar gael yn fuan. Bydd yn ein hysbysu am sefyllfa'r aelodau hynny o'n teulu Cristnogol sy'n cael eu herlid ledled y byd ac yn rhoi arweiniad inni wrth weddïo drostynt.

# Cyfarfodydd trefnu Pabell yr Eglwysi yn y prif wyliau cenedlaethol

**Eisteddfod yr Urdd, Sir Gaerfyrddin, 29 Mai–3 Mehefin 2023**
Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru a'r Cyngor Ysgolion Sul **am 7.00y.h. nos Lun, 6 Mawrth, yng nghapel Providence, Llangadog**, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri eleni.

**Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, 24–7Gorffennaf 2023**
Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru **am 1.00y.p. bnawn Llun, 6 Mawrth, yng Nghanolfan y CCRW ar faes y Sioe**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos y Sioe eleni.

**Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, Boduan, ger Pwllheli, 5–12 Awst**
Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru **am 7.00y.h. nos Fawrth, 7 Mawrth, yn festri capel Penlan yng nghanol tref Pwllheli**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod eleni.

Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer y gwyliau cenedlaethol, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondinau, ac fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 9 2023 RHIF 106

# PAX – Coffáu Canmlwyddiant Apêl Heddwch Merched Cymru

Gan mlynedd yn ôl, aeth grŵp o ferched Cymru, wedi'u sbarduno gan effaith erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf, ati'n ddygn i gasglu enwau gwragedd ar ddeiseb heddwch a fyddai'n cyfrannu tuag at y nod o roi diwedd ar bob rhyfela.

Ac ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched (8 Mawrth), mae'n addas ein bod yn cofio ymgyrch arbennig y merched hyn – Apêl Heddwch Merched Cymru. Llofnododd y nifer anhygoel o 390,296 o ferched ddeiseb yn galw am 'Gyfraith, nid Rhyfel' i'w chyflwyno i Arlywydd Unol Daleithiau America ar y pryd, Calvin Coolidge. Yn ôl y wasg yn Efrog Newydd ar y pryd, roedd y ddeiseb derfynol dros 7 milltir o hyd.

Yn ystod 1923–4, teithiodd Annie Hughes Griffiths, Cadeirydd Cynghrair y Cenhedloedd, a'i chyd-ymgyrchwyr ledled Cymru yn casglu enwau cyn mynd draw i America ar daith heddwch o ddau fis yn casglu mwy o enwau ac i gyflwyno'r ddeiseb i'r Arlywydd. Yng ngeiriau'r ddeiseb: 'Nid ydym wedi ein hysgogi gan unrhyw gymhellion gwleidyddol. Siaradwn yn unig fel merched Cymru – merched cenedl sy'n rhoi bri ar beidio â choleddu casineb tuag at unrhyw wlad neu bobl, a'n dyhead yw y bydd cyfeillgarwch ac ewyllys da yn teyrnasu ar y ddaear.'

I nodi canmlwyddiant yr ymgyrch a'r ddeiseb, mae arddangosfa arbennig – PAX – i'w gweld yn oriel gelf (MOMA) y Tabernacl, Machynlleth. Aethpwyd ati i estyn gwahoddiad i nifer o artistiaid Cymreig cyfoes – yn arlunwyr a beirdd – i ddangos darn o'u gwaith i gynrychioli 'Heddwch', a derbyniwyd ymatebion sy'n cyfuno i greu arddangosfa amrywiol ac effeithiol.

Dywedodd Heledd Wyn Hardy, a fu'n gyfrifol am guradu'r arddangosfa:

> Roedd hi'n anrhydedd medru gosod gwaith arlunwyr o wahanol gyfryngau ac arddulliau o fewn yr un arddangosfa, er enghraifft Shani Rhys James gyda Ruth Jên, a chael printiau a lluniau olew.
>
> Mae'r gwaith yn amrywiol, a phob un o'r artistiaid wedi ymateb i heddwch yn ei ffordd bersonol, e.e. rhoddais ffilm o'r 'fam ddaear' mewn harddwch natur i ddynodi ein cysylltiad gyda natur. Ymatebodd Meinir Mathias gyda portread o Annie, sef arweinydd y merched, ac roedd ymateb Natalie Chapman yn fwy anarchaidd, modern.
>
> Mae celf yn arf bwerus i anfon neges at gynulleidfa. Mae'n amserol ystyried beth allwn ni fel artisitiaid ei ddweud am heddwch a sicrhau heddwch byd-eang trwy ein gwaith.

Mae'r dehongliadau a gyflwynir yma yn rhai eang iawn – o hunanbortread beiddgar Shani Rhys James i gynildeb tri darn gan Elfyn Lewis – *Heddwch*, *Swnt Enlli*, a *Maddeuant*. Mae ladis Cymreig Ruth Jên yn gwneud ymddangosiad yma gan godi gwên, yn ogystal â gwaith gan Iwan Bala – *Tyfiant* a *Tybed ...*' yn ei arddull unigryw. Yn ganolbwynt i'r arddangosfa yr oedd y paentiad trawiadol o gorff ar deils clai wedi'u crasu gan Meri Wells, â'r teitl *Byth Eto* yn coffáu erchylltra Hiroshima.



Canolbwynt yr arddangosfa

Dewis Annie Suganami oedd ail-greu ffotograff du-a-gwyn o'r pedair merch a gyflwynodd y ddeiseb ar risiau'r Tŷ Gwyn yn Washington. Mae darlun Meinir Mathias o Annie Hughes Griffiths ei hun yn arbennig o bwerus. Llwyddodd yr artist i ddal cadernid cymeriad Annie, sy'n gwisgo dillad 'benywaidd', pinc, wrth iddi afael yn y ddeiseb, wedi'i hamgylchynu gan adar papur a baner wen yn chwifio'r tu ôl iddi yn symbolau o heddwch. Eglurodd Meinir fod y merched wedi'u clywed yn canu 'O fryniau Caersalem' ar y llong draw i America, a'i bod hi wedi cynnwys rhai geiriau o'r emyn ar yr adar papur.

Mae'r arddangosfa hefyd yn cynnwys cerddi gan nifer o feirdd, yn eu



Annie Hughes Griffiths gan Meinir Mathias

mysg Mererid Hopwood, Menna Elfyn, Sara Louise Wheeler a Sian Northey.

'Nid dim ond merched parchus / mewn esgidiau call' oedd wedi llofnodi'r ddeiseb, yn ôl Sian Northey, 'ond hefyd gwrachod / a phuteiniaid / a phlant a fagwyd yn y wyrcws'. Ar ddarn hir o bapur, cynhwyswyd enwau rhai o'r gwragedd hyn, oedd yn dod o bob cwr o Gymru: Miss Jones o Ddinbych a Miss Roberts o Benrhiw-ceibr, Mrs Beynon, Blaengwynfi, a Mrs Louisa Jones, Aberystwyth. Tybed beth oedd eu hamgylchiadau nhw?

Profiad iasol i mi oedd gwrando ar Karen Owen yn adrodd ei cherdd 'Cofeb', â'r diweddglo sobreiddiol:

> Ar y meini hyn sy'n grwm o'n henwau,
> yn gynion lleddf ac yn llwch,
> y mae pob duw yn gelain
> (oni bai am dduw rhyfel)
> ac nid oes neb, neb,
> dim ond y rheini y cerfiwyd eu henwau
> yn annwyl gan ddagrau,
> wedi gweld diwedd rhyfel
> erioed.

Flwyddyn gyfan ers i'r Arlywydd Putin a'i fyddin ymosod ar Wcráin gan achosi lladdfa a dinistr erchyll, gwnaeth yr Arlywydd Zelenksy apêl daer ar i wledydd y Gorllewin ddangos eu cefnogaeth i'w wlad drwy anfon mwy o arfau i ganol y brwydro. Ond tybed ai dyna'r ateb mewn gwirionedd? Onid oes gan ferched Cymru heddiw ran i'w chwarae i geisio newid y diwylliant rhyfelgar hwn?

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *PAX – Coffáu Canmlwyddiant Apêl Heddwch Merched Cymru*

*(parhad o dudalen 1)*

Ar ôl iddynt ddarganfod hanes yr apêl, daeth grŵp bychan o ferched o Wynedd at ei gilydd yn 2016 i ffurfio Heddwch Nain / Mam-gu. Mae ganddynt dri nod: Cofio, Dathlu a Gwireddu. Eu hapêl newydd ar gyfer ein hoes ni yw sicrhau: byd heb ryfel, gwladwriaeth les i bawb, byd cynaliadwy, cyfrifoldeb dros y blaned a bywyd ar y blaned, arallgyfeirio o'r diwydiant arfau, parch a chydraddoldeb i bawb. Am ragor o fanylion, cysylltwch â: heddwchnain.mamgu@gmail.com.

Bydd yr arddangosfa – PAX – i'w gweld yn y Tabernacl, Machynlleth, yn rhad ac am ddim tan 15 Ebrill; oriau agor: dydd Mawrth hyd ddydd Gwener, 10am–4pm; dydd Sadwrn, 10am–1pm. Mae'n cynnwys cymaint o argraffiadau a delweddau cyfoethog – ac mae modd prynu rhai o'r gweithiau celf neu brintiau ohonynt. Ewch i'w gweld!

*Marian Beech Hughes*

# Argyfwng y tomatos a'r ciwcymbyrs

Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

O ddarllen rhai o'r penawdau yn y papurau sy'n cario'r faner goch ar y top, gellid yn hawdd credu bod yna argyfwng prinder bwyd difrifol yn ein gwlad ar hyn o bryd! Cafwyd penawdau bras yn sôn am argyfwng y ffliw adar, ac y byddai prinder wyau yn y siopau, gan orfodi nifer o archfarchnadoedd i gyfyngu nifer y bocsys wyau y câi pawb eu prynu i dri bocs.

Erbyn hyn, llysiau salad sydd yn y penawdau, gan greu creisis a phanig am nad oes sicrwydd y bydd gan bob siop gyflenwad digonol o ambell lysieuyn ar ein cyfer. 'First world problems,' medd rhai – y pethau bach dibwys sy'n creu penawdau tudalen flaen i ambell bapur newyddion! Bu llawer yn rhannu lluniau o silffoedd gwag ar y cyfryngau cymdeithasol, a'r un pryd yn dangos silffoedd llawn dros gyfandir Ewrop, gan roi'r bai ar Brexit am nad oedd cyflenwad digonol o domatos ar gael ar ein cyfer. Onid yw hi'n bryd i ni geisio bod yn fwy hunangynhaliol, gan ofalu ein bod yn medru tyfu'r nwyddau cyffredin hyn yn nes at adref? O brynu nwyddau ffres yn yr archfarchnad, mae'n rhyfeddol faint mae'r bwydydd hynny wedi teithio i gyrraedd y silffoedd hynny – wedi teithio cryn bellter o wlad dramor i'r ganolfan ddosbarthu, ac eto taith arall oddi yno i'r siop.

Ar hyn o bryd rydym ynghanol Pythefnos Masnach Deg, sy'n cael ei gynnal o ddydd Llun, 27 Chwefror, hyd ddydd Sul, 12 Mawrth. Mae'r ymgyrch honno'n naturiol yn canolbwyntio ar gefnogi cynhyrchwyr mewn gwledydd tlawd, er sicrhau pris theg a chyfiawn i'r ffermwyr. Pan oeddem yn rhan o Ewrop, roedd grantiau a chefnogaeth i ffermwyr Cymru hefyd, i gynhyrchu llefrith a chynhyrchion eraill. Ond ymddengys bod llawer o'r rhain wedi diflannu neu eu cwtogi erbyn hyn, a bod cynnyrch o dramor yn tanseilio prisiau teg i'r ffermwyr yn y wlad yma.

Os ydym o ddifri am gynnal economi leol, datblygu diwydiant amaeth sy'n gynaliadwy ac yn wyrdd, heb sôn am leihau effeithiau niweidiol newid hinsawdd, mae angen hyrwyddo masnachu teg ym mhob rhan o'r gadwyn fwyd. Ac efallai fod angen i ninnau hefyd fel prynwyr y bwyd yma fod yn fwy darbodus a pheidio â disgwyl cynhyrchion ecsotig o bob rhan o'r byd i fod ar gael 12 mis y flwyddyn. Tybed oes angen dychwelyd i batrwm o fwyta bwydydd arbennig yn eu tymor, yn hytrach na disgwyl bod popeth ar gael gydol y flwyddyn?



Ond os mai argaeledd tomatos yw ein gofid mawr ni, rydym yn ymwybodol fod yna argyfyngau bwyd gwirioneddol mewn rhai rhannau o'n byd ar hyn o bryd. Mae gwledydd lle mae newyn enbyd yn effeithio ar filiynau o bobl ar hyn o bryd, ac nid prinder ambell lysieuyn ond prinder unrhyw fath o fwyd o gwbl. Ac yn ystod Pythefnos Masnach Deg, rydym yn atgoffa ein hunain unwaith eto fod llawer o gynhyrchwyr ar hyd a lled y byd yn cynhyrchu bwyd ar golled. Maen nhw'n gweithio'n galed i gynnal eu teuluoedd, ond mae'r pris pitw sy'n cael ei dalu iddynt yn gwneud hynny'n amhosibl. Diolch am bythefnos Masnach Deg, sy'n ein hatgoffa o hyd pa mor allweddol yw creu economi fyd-eang sy'n cefnogi pawb sy'n rhan o'r gadwyn fwyd ym mhob rhan o'r byd.

Mudiad sy'n gweithio i hyrwyddo hyn yw Masnach Deg Cymru. Meddai Kadun Rees, Swyddog Cymunedol a Chyfathrebu Masnach Deg Cymru, 'Y thema eleni yw "bwyd". Mae bwyd yn cysylltu ac yn meithrin ein perthynas â'n gilydd a gyda natur. Fe wnaeth y pandemig amharu ar y cysylltiadau hyn, ac rydym eisiau dathlu bod gyda'n gilydd a rhannu iaith gyffredinol bwyd. Yn ystod y pythefnos bydd llu o ddigwyddiadau'n digwydd yn eich cymunedau, yn cael eu cynnal gan eich grŵp Masnach Deg lleol. Ond beth allwch chi ei wneud? Gallwch addo prynu nwyddau Masnach Deg yn y siopau neu gynnal bore coffi Masnach Deg, fel enghraifft. Mae yna lwyth o adnoddau Cymraeg a ddwyieithog ar ein gwefan: gallwch eu hargraffu neu gallwn anfon copïau atoch.'

Mae argyfwng yr hinsawdd yn fygythiad cynyddol ac uniongyrchol. Mae'r argyfwng yn cael effaith andwyol ar ffermwyr a gweithwyr mewn gwledydd incwm isel a chanol, er mai nhw sydd wedi cyfrannu leiaf at y newid yn yr hinsawdd. Ond trwy brynu nwyddau Masnach Deg gallwch chi helpu i newid hyn.

### Beth yw Masnach Deg?

Mae Masnach Deg yn fudiad byd-eang sy'n rhoi pobl a'r blaned o flaen elw. Credwn y dylai pob ffermwr a gweithiwr, lle bynnag y maent yn byw yn y byd, dderbyn cyflog byw. Mae Cymru yn genedl fach, ond rydyn ni am chwarae ein rhan wrth greu byd gwell. Yn 2008 daeth y Cymry yn Genedl Masnach Deg gyntaf y byd! Felly, prynwch nwyddau Masnach Deg a chewch effaith fyd-eang. Am fwy o wybodaeth ewch draw i'n gwefan: www.masnachdeg.cymru

Beth am i ni wneud pob wythnos yn wythnos fasnach deg, wrth i ni brynu cynnyrch o bob math, gan gofio am ffermwyr Cymru a chynhyrchwyr nwyddau mewn gwledydd tlawd ledled y byd?

*Aled Davies*

# Rhodd Gostus Crist o Gymod

**Cyfres o fyfyrdodau ar gyfer y Grawys gan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)**

### Wythnos 3: Cyfiawnder Hiliol

### ‘Dros Eglwys sydd â’r dewrder i hyrwyddo cyfiawnder hiliol.’

**Ysgrythur:** Job 5:1–16

### Myfyrdod

Wrth i fudiad Black Lives Matter herio cydwybod y byd yn dilyn llofruddiaeth George Floyd yn Minneapolis yn 2020, ymunodd eglwysi’r ynysoedd hyn ag eraill i gynyddu neu adnewyddu eu sylw i waith cyfiawnder hiliol. Wrth i ni gyrraedd trydydd pen-blwydd marwolaeth George Floyd, y gobaith yw y bydd y ffocws diweddar hwn yn peri newid parhaus sydd wedi’i wreiddio’n ddwfn ac a gaiff ei integreiddio i fywyd a chenhadaeth cymunedau ein heglwys leol – er ein bod yn dal i aros i weld ai dyma fydd yn digwydd,

Wrth fyfyrio ar brofiadau eglwysi Minneapolis fel rhan o’r Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol eleni, cawsom ein hatgoffa am drasiedi arall a ddigwyddodd yn y Deyrnas Gyfunol ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, sef llofruddiaeth Stephen Lawrence. Cafodd y modd bwystfilaidd a disynnwyr y torrwyd einioes y gŵr ifanc hwn yn fyr, a’r ymdrechion dyfal y bu’n rhaid i’w deulu eu cyflawni er mwyn ymladd dros gyfiawnder a dinoethi’r hiliaeth sefydliadol oedd yn amddiffyn llofruddwyr yn hytrach na dioddefwyr, effaith ddwys ar gymunedau ledled yr ynysoedd hyn. Ac eto, yn y gwaith a wnaed gan CTBI, mewn partneriaeth ag eraill, ym maes cyfiawnder hiliol yn y blynyddoedd diwethaf hyn, rydym yn parhau i ddod ar draws lefelau uchel o ofn a dieithrio ymhlith cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a gwrthwynebiad i gynnal deialog ynglŷn â hil mewn rhai cymunedau.

Mae gwaith cyfiawnder hiliol yn cartrefu’n naturiol o fewn strwythurau eciwmenaidd oherwydd bod y rhai sy’n gwneud y gwaith yma eisoes yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae ganddyn nhw hefyd ddyhead i ddysgu am brofiadau pobl eraill, ac maent yn barod i glywed gwirioneddau anodd ynglŷn â sut gallai ein gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu fod wedi effeithio’n



anffafriol ar eraill. Ceir dealltwriaeth o fewn y mudiad eciwmenaidd na allwn ddisgwyl i gymod ac adferiad perthynas ddigwydd ar ein telerau ni. Gall fod yna bris i’w dalu, angen i roi, gwneud lle ac i wneud yn iawn. Adlewyrchir yr ysbryd hwn wrth hyrwyddo Sul Cyfiawnder Hiliol, a gafodd ei gynnal ar 12 Chwefror eleni, ac sydd â’i wreiddiau yn ymateb yr eglwys i lofruddiaeth Stephen Lawrence.

Er hynny, mae yna rai, hyd yn oed o fewn gwaith rhyng-eglwysig, sy’n ystyried bod sgwrsio am amrywiaeth yn weithred all achosi rhwygiadau. Yn hytrach nag oedi gyda chlwyfau’r gorffennol, awgrymant y dylem edrych tuag at ddyfodol lle gall pawb gael eu trin yn yr un modd, gan y bydd gennym oll yr un hawliau a diogelwch cyfreithiol. Mae’r pryder sydd ynghlwm â dinoethi clwyfau cymdeithas yn un dealladwy, oherwydd fe all y gwaith o gymodi fod yn boenus ac anniben. Gallwn deimlo nad oes gennym y cyfarpar i allu rhoi at ei gilydd yr hyn sydd wedi’i dorri’n deilchion ers cyhyd.

Dyma lle gall yr adnoddau a ganfyddwn yn ein ffydd ein helpu i adeiladu hyder wrth i ni geisio cael pobl i gwrdd o amgylch y ford. Dywedir wrthym yn narlleniad heddiw o’r Ysgrythur i ymbil ar Dduw i roi gobaith i’r tlodion, ac i roi taw ar anghyfiawnder. Gall creu gofod er mwyn gwrando ar brofiadau byw’r sawl sydd wedi dioddef o anghyfiawnder olygu bod yn anghyfforddus a chreu ansicrwydd. Ond mae hwn eisoes yn gam tuag at iachâu, a thuag at greu cymdeithas fwy cyfiawn a thrugarog fydd yn fwy diogel i bawb. Dywedir yn aml ein bod, wrth i ni dawelu dioddefwyr anghyfiawnder, yn rhoi lloches i’r rhai sy’n troseddu, ond byddwn hefyd yn eu hamddifadu o’r cyfle i brofi’r newid yn eu calonnau a all ddigwydd yng ngoleuni ffydd.

### Cwestiynau

- Darllenwch erthygl neu gwrandewch ar gyfweliad am berthynas hil neu amrywiaeth a bod yn gynhwysol. Beth sy’n eich calonogi yn eich myfyrdod neu eich sgwrs? Beth sy’n achosi pryder i chi?
- Yng nghyd-destun eich cymuned leol, ymhle welwch chi ganlyniadau mwyaf niweidiol anghyfiawnder hiliol, ymrannu ac anghydraddoldeb?
- Ble fyddwch chi’n clywed y sgyrsiau mwyaf gonest neu ysbrydoledig ynglŷn â chyfiawnder hiliol yn cael eu cynnal? Beth ellir ei ddysgu a’i rannu o’r enghreifftiau hyn o arfer da?

### Camau Gweithredu

- Edrychwch ar adran benodol cyfryngau cymdeithasol CTBI ar gyfer yr Wythnos o Weddi dros Undod Cristnogol er mwyn ystyried sut mae eglwysi mewn gwahanol lefydd ar yr ynysoedd hyn wedi tystiolaethu i’r cysylltiad rhwng eciwmeniaeth a chyfiawnder hiliol. Beth allech chi ei ddysgu gan hyn er mwyn helpu i gadw ffocws rheolaidd ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder hiliol yn eich gwaith eciwmenaidd ac wrth estyn allan?
- Gwrandewch ar un neu fwy o’r tystiolaethau a rennir ar weminar Hyrwyddwyr Cyfiawnder Hiliol. Oes modd i chi ganfod unrhyw bwyntiau gweithredu sy’n deillio o’r profiadau hyn i’ch eglwys neu eich rhwydweithiau eciwmenaidd?
- Ystyriwch sut mae profiadau o gyfiawnder hiliol a pherthyn yn cael eu profi gan wahanol genedlaethau. Allech chi drefnu deialog rhwng sawl cenhedlaeth ar y thema hon, gan ganolbwyntio’n arbennig, efallai, ar sut mae’n effeithio ar bobl ifanc a’u hymdeimlad o obaith ar gyfer y dyfodol?

### Gweddi

Dduw cariadus,
Rho i ni’r dewrder i wynebu
creithiau anghyfiawnder hiliol:
er mwyn cefnogi’r rhai sydd wedi dioddef
i rannu eu poen
heb ofni cael eu tawelu neu eu gwawdio;
i helpu’r rhai sydd wedi elwa o freintiau
i ystyried cost y breintiau hynny i eraill.
Arwain yr Eglwys i fod yn fan gobaith
a chefnogaeth
mewn cymunedau sydd wedi dioddef
yn sgil dieithrio ac ofn,
gan atgyfnerthu eu hapêl am gyfiawnder.
Cadw ni rhag bod yn hunanfoddhaus
ynglŷn â pherthnasau a dorrwyd
a chryfha ein penderfyniad i gyflawni
gwaith
anniben a phoenus
cymod. Amen.

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 12 Mawrth, am 7.30yh**
Mae 8 Mawrth yn Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched. A hithau’n ganmlwyddiant Apêl Merched Cymru dros heddwch byd-eang, cawn gyfarfod criw o ymgyrchwyr sy’n benderfynol o ddod â’r hanes cudd yma i’r golwg.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 12 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Modlen Lynch yn trafod cyfraniad merched i’n hemynyddiaeth

**Sul, 12 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa sgwrs gydag Emyr Lewis, y sylwebydd rygbi

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Y weinidogaeth ddoe a heddiw (6)

Yn yr erthygl hon, dechreuwn ystyried y pynciau a'r themâu a welwyd yn Adroddiad y Comisiwn a godwyd gan Gyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ym 1953. Er i'r Adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi mor bell yn ôl â 1958, erys amryw o'r pethau sydd ynddo yr un mor berthnasol i ni heddiw ag yr oeddent pan welsant olau dydd gyntaf 65 o flynyddoedd yn ôl.

Dylid nodi, wrth ddechrau, i hwn fod yn adroddiad o bwys ac yn gyfraniad gwerthfawr, ac yntau wedi ei lunio gan 13 o wŷr amlwg Undeb yr Annibynwyr. Camgymeriad oedd ceisio'i farchnata am swllt y copi, oherwydd yr oedd hynny ynddo'i hun yn siŵr fod wedi cyfyngu ar ei gylchrediad ac ar y sylw a roddwyd i'w gynnwys. Dylid fod wedi ei rannu am ddim a'i ddosbarthu'n eang, oherwydd mae'r themâu sydd ynddo, er syndod o bosibl, yn parhau i bwyso arnom heddiw.



## Cors anobaith?

O ystyried cynnwys y ddwy erthygl gyntaf yn y gyfres hon, dylid pwysleisio na ddylai oerfelgarwch ein cyfnod, na'r dirywiad yr ydym yn dystion iddo, ein parlysu na'n harwain i gors anobaith. Pan fo ystadegau yn ein boddhau, dylem ymdrechu'n galetach i sicrhau parhad y llwyddiant; pan fo ystadegau'n ein digalonni, dylem ymdrechu'n galetach i sicrhau fod ein tystiolaeth y glir, yn glywadwy ac yn adeiladol. Nid cilio i gornel a ddylem wrth wynebu dyddiau blin, ond cofio nad ydym yn ein hunain. Yr ydym ynglŷn â gwaith Duw, ac nid yw Duw wedi cefnu arnom, na'n hanghofio na'n gadael yn amddifad.

Ydym, yr ydym mewn cyfnod o newid mawr ac mae newid yn gallu bod yn heriol ac yn frawychus. Ni all neb wadu hynny. Mae cymaint o bethau yr oeddem wedi tybio eu bod yn sefydlog ac yn barhaol nid yn unig yn gwegian ond bellach yn dymchwel o'n cwmpas. Ond wedi dweud hynny, cofiwn hyn; hyd yn oed os diflanna pob un o'n strwythurau a'n harferion dynol ni, bydd Gair Duw ac Efengyl Iesu Grist yn aros, a hynny sy'n bwysig. Gallwn wneud heb y strwythurau a heb yr arferion, ond heb Air Duw a'r Efengyl byddai ar ben arnom.


## Nôl i'r gwreiddiau

Er y lleihad yn ein niferoedd, ac er bod eglwysi'n cael eu datgorffori a chapeli'n cau, nid ydym heb obaith. Os mai o'r ffermydd a'r tyddynnod, y tafarnau, yr ysguboriau a'r ogofau y daethom, nac ofnwn orfod dychwelyd iddynt. Diolchwn fod eto rai o'n cwmpas a fyddai'n fodlon ymuno â ni ar aelwyd neu mewn cegin i gydaddoli, i fwynhau cymdeithas y saint, i gyfranogi o'r bara ac o'r gwin wrth gofio aberth Iesu Grist a mawredd gwaith achubol Duw. Os mai hyn yw ein dyfodol, boed felly, oherwydd fe wynebwn bob newid yn ddiogel yn llaw Duw, a hyd yn oed os bydd yn rhaid i ni ildio rhai pethau y buom yn eu trysori yn y gorffennol, ni fydd yn rhaid i ni ildio'n Beibl, na'r Efengyl, na chwaith hanes godidog ymwneud Duw â ni fel cenedl. Fe fydd y pethau hyn yn aros.

Nid yw'r cyfan ar ben, fel yr awgryma rhai, a ffurf ar anghrediniaeth yw dweud hynny.

Codwn ein pennau! 'Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser,' meddai Paul, cyn dweud eto, 'llawenhewch.' (Phil. 4:4) Wrth i ni gynnal ein tystiolaeth a dyfalbarhau trwy anawsterau'n cyfnod, boed i ninnau, yn wir, lawenhau, a hynny oherwydd mai braint i bob un ohonom yw cael dal cannwyll yn y tywyllwch, a'i hamddiffyn rhag pob chwa o wynt, a hynny er mwyn i eraill, nid ein gweld ni, ond weld y goleuni ac os byddant yn dewis, gerdded tuag ato ac ymuno â ni.

**Geraint Tudur, Bangor**




## PROSIECT DENMAN 2023

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) ar y thema:

### Ein Hysgol Sul: 'Dweud am Iesu.'

Yr ydym ni bellach wedi symud at ailgydio yn ein cyrddau a'n hysgolion Sul ni, ac er i ni fod ar wahân am gyfnod, mae neges yr Iesu yn aros yr un. Sut fyddech chi'n hoffi sôn wrth bobl am eich ysgol Sul chi ac am neges Iesu Grist?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn dydd Llun, 5 Mehefin 2023.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Wrecsam ym mis Mehefin.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

# Barn Annibynnol

## Eglwysi Byw

Rydw i wedi hen flino clywed pobl yn sôn o hyd am gapeli'n cau. Ond, does dim modd osgoi, os bydd i ni godi'r llenni i weld cyflwr yr eglwysi sy'n weddill, y ffordd garedicaf i'w disgrifio fyddai: blinedig.

Y mae'r arwyddion wedi bod yn dywyll ers dwy neu dair cenhedlaeth a'r unig ateb sydd wedi bod ar gynnydd yw mwy a mwy, eto ac eto o'r un peth (methiannus!).

Peth cyffredin yw gweld capeli ar gau o Sul i Sul heb sôn am fagu cymeriad i blant a'r ifainc, na neb arall. Doedd dim ond *ichabod amdani.

Am ein cynulleidfaoedd, peth cyffredin yw clywed pobl yn sôn am 'faint oedd yn y cwrdd' am eu bod bellach yn ddigon bach i'w cyfri. *Ichabod!

Wrth gyfarfod, beth sy'n digwydd yw bo – un (efallai o bell) yn siarad, gyda phawb arall yn ddistaw – tŷ cwrdd, a neb mewn gwirionedd yn cwrdd yn glos â'i gilydd. *Ichabod!

### Oes angen i bethau fod fel hyn?

Y mae dŵr llonydd yn cronni'r afiach. Y mae hyn yn wir am fywyd ac fe gymeriff dipyn o fwrlwm i greu bwrlwm a'i foddhad. Y cwestiwn sydd gen i yw, a ydym ni wedi'n gadael yn rhagrithwyr, sef pobl sy'n ceisio actio fel eglwysi. Y mae dilyn Iesu a bod yn aelod o eglwys yn hawlio ein bod yn fyw ac effro. Onid yw'r cliw i ni yn y geiriau sydd ynghlwm wrth yr efengyl, geiriau fel gras, trugaredd, maddeuant, gwasanaeth, gofal, troi'r foch, yr ail filltir, bod fel y Samariaid ac yn halen a goleuni. Nid syniadau yw y rhain ond geiriau sy'n ein harwain at ewyllys Crist, ac onid gwaith Eglwys yw trefnu i roi'r rhain ar waith.



Tybed os yw geiriau John Pavlovitz weles i ar y we yn cynnig arweiniad?

Cristion, wyt ti'n dymuno am ddiwygiad?
Rho'r gorau i gasáu
Rho dro arni i geisio gwneud fel Iesu.
Dos tu hwnt i furiau adeiladau eglwysig
Bwyda'r newynog, gofala am gleifion,
portha'r tlawd.
Dyw hi ddim yn cymryd llawer i garu ac
ni wnaiff gwneud hynny'n unig fawr o
les i neb
Gad dy adeilad
Dos i garu
Onid cariad yw bywyd eglwys a lle mae
cariad mae bwrlwm!

**Eirian Rees**

*Ichabod = mae'r gogoniant wedi mynd

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# Lletygarwch llawen

Un peth yw gwybod yn fras am fodolaeth teulu, peth arall yw dod i'w nabod a chyfarwyddo â'i ffyrdd. Hyn ddigwyddodd i dros 4500 ohonom, fynychwyr Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd a gynhaliwyd ddiwedd yr haf yn Karlsruhe, Yr Almaen, y trydydd tro iddi ar gyfandir Ewrop ers cynnal y gyntaf un yn Amsterdam yn 1948.

Roedd y wefr a'r cyffro'n heintus wrth i gynrychiolwyr yr eglwysi a'u harweinwyr ddod ynghyd gan gymell atynt ryw 20,000 o ymwelwyr ar-lein yn ddyddiol. O'r foment gyntaf yn llinellau hirion, araf y gofrestrfa trodd camau dieithriaid yn symudiad i gyfeiriad wyneb ac enw, iaith ac acen, diwylliant a chenedl, symudiad a gynyddodd ei dempo gydol yr wythnos trwy fawl a chân a gweddi, a phryd bwyd a seiat a sgwrs, gan ddatblygu'n gymuned wâr, Crist-debyg. Hawdd gweld ynddi arwyddion bywyd y Deyrnas. I bob pwrpas, daearwyd thema'r wythnos a gwelwyd 'cariad Crist yn symud y byd i gymod ac undod,' yn ein plith gan ddod yn realiti byw a bywiol ar lawr cynhadledd ar lannau'r Rein, nepell o'r ffin â Ffrainc, daear aeddfed i blannu ynddi hadau amheuaeth, ofn a drwgdybiaeth ac o gofio hanes yr ardal arbennig hon o'r cyfandir dros y canrifoedd, daear i gnydio gelyniaeth, cynnen a thrais yn drwch.

### Presenoldeb y bygythiol

Rhag tybio mai profiad bas ac arwynebol cynadleddwyr mewn cymuned wneud, dros dro yn ymarfer mesur helaeth o gwrteisi a chyfeillgarwch oedd hwn, cystal dweud inni fod yn ymwybodol o'r dechrau'n deg o bresenoldeb y bygythiol a'r dinistriol yn ein byd â'r gymanfa ei hunan yn cael ei hystyried gan rywrai'n llwyfan posibl i weithredu treisgar gan mai gorchwyl cyntaf pob ymweliad oedd ildio i archwiliad y swyddogion diogelwch â'u gwialennod datgelu'n cribo corff ac eiddo'n reit fanwl. Doedd dim modd anghofio chwaith wrth gyfarfod ar dir mawr Ewrop am fodolaeth y rhyfel yn Wcráin a oedd ond rhyw daith diwrnod go lawn mewn trên i ffwrdd. Ffaith oedd yn cael ei chadarnhau ymhellach gan bresenoldeb cynrychiolaeth gref, un o aelodau amlycaf y cyngor.

### Uniongred

Aelod bychan iawn o'r teulu yw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, sy'n hawlio lle a phleidlais un cynrychiolydd wrth y bwrdd, felly hefyd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, cymer Anglicaniaid Cymru ychydig mwy o ofod a'r cyrff eglwysig Prydeinig fwy o le fyth. Cangen gryfaf y teulu yw ein cefndryd Uniongred. Yn eu gwisgoedd a'u penwisgoedd offeiriadol, duon gan fwyaf, â'r croesau cadwynog crog yn amlwg ar eu brest nid oedd colli arnynt, â'u presenoldeb a'u pleidlais yn cario cryn bwysau a dylanwad. Y chwaer fawr yn eu plith yw Eglwys Uniongred Rwsia.

Fel yr ofnwyd, ym mlwyddyn cyhoeddi rhyfel Wcráin doedd y gymanfa ddim yn debygol o fod heb densiwn iddynt hwythau'n arbennig, nac i neb arall chwaith, o ran hynny.

### Ysgrifennydd Cyffredinol

Tybiodd y craff yn ein plith o'r dechrau bod rhywbeth rhagluniaethol yn y ffaith bo'r Athro Ioan Sauca o Athrofa Bossey, wedi ei alw i wasanaethu fel Ysgrifennydd Cyffredinol dros dro ar adeg mor dyngedfennol yn hanes y cyngor ag eglwysi dwyrain Ewrop, yn arbennig. Mae'n offeiriad Uniongred o Rwmania, yn bennaeth athrofa ecwmenaidd ac yn meddu ar gymwysterau'r llysgennad perffaith. Mae Ioan yn ŵr cynnes, rhadlon a doniol, parod ei wên ac abl iawn i dynnu gwên, heb fod yn arwynebol na gwamal. Ffrind a chydymaith dibynadwy, codwr pontydd mentrus ac eofn.

Ymwelodd ag Wcráin, gwlad heb ynddi eglwys yn perthyn i'r cyngor, gan gyfarfod brodyr a chwiorydd o brif eglwysi'r wlad gan gynnwys y ddwy eglwys Uniongred, nad oedd fawr o siarad rhyngddynt cynt, ac apelio ar y llywodraeth i ganiatáu i gynrychiolaeth ymweld â'r gymanfa, menter ddygodd

*parhad ar y dudalen gefn*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Lletygarwch llawen – *parhad*

ffrwyth gyda chroesawu un ar ddeg ohonynt i'n plith. Mor braf oedd ei glywed yn datgan bod sôn am gais o du dwy o eglwysi Wcráin i ymuno â theulu Cyngor Eglwysi'r Byd.

## Agored i drafodaeth

Ers ei dechrau condemniwyd y rhyfel yn hallt gan y cyngor a chafodd y Patriarch Kirill wybod mewn termau ddigon clir farn ei gyd-offeiriaid Uniongred am ei gefnogaeth i amcanion yr Arlywydd Putin. Ymwrthodwyd, er hynny, â chais rhai o aelodau'r teulu i ddiarddel Eglwys Uniongred Rwsia o'r rhengoedd. Meddai Dr Ioan, 'Ein gwaith ni yw dwyn pobl at y bwrdd i drafod, ac nid i'w diarddel. Rhaid inni gadw'r cyngor yn wagle agored i drafodaeth a deialog. Mewn byd o rwygiadau gall y cyngor fod yn llwyfan i gymod. Rhaid inni wrth ein gilydd. Pe na bai gennym y Cyngor hwn byddai'n rhaid i ni ei ddyfeisio.'



Yn gwbl nodweddiadol ohono, rannodd stori gan sôn am gwmni o fyfyrwyr yn ei ofal oedd yn amlwg iddo'n cael peth trafferth i fod yng nghwmni ei gilydd. Gwahoddodd hwynt am *pizza* a pheint, a chael eu hymateb llawn gan weld wrth y bwrdd bob dieithrwch yn diflannu, drwgdybiaeth yn colli tir a chalonnau'n toddi un.

Mae gennym ninnau'n byrddau, ein bara a'n gwin, ein paneidiau a'n teisennod. Ymddengys mai'r alwad i ninnau yw galw eraill atom at y bwrdd.

Bydded i ni ymarfer lletygarwch llawen,
oherwydd trwyddo,
gellir iachâu gelyniaeth. Amen

Pádraig O'Tuama,
a chymuned Corrymeela







*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*